Cyfarfod Uwchgyfeirio

y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Cofnodion

Microsoft Teams

29 Medi 2021

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Laura Armitt (LA)	Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Lee Jones (LJ) **(CADEIRYDD)**	Prif Weithredwr
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol (Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth)
Heddlu De Cymru	
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Bacon (RB)	Dirprwy Brif Gwnstabl
Y Prif Uwch-arolygydd Joanna Maal (JM)	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis (MT)	Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Y Prif Uwch-arolygydd Chris Truscott (CT)	Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Gweithredol
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

Rhif	Eitem	Cynnwys
1.	**Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau.
2.	**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**	2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir. Penderfynwyd y dylid ymdrin â'r camau gweithredu a'r argymhellion y tu allan i'r cyfarfod, gyda'r rhai sy'n gyfrifol am y camau gweithredu perthnasol.

3.	Camau gweithredu'r heddlu ynghylch amseroedd aros galwadau 101	3.1 Gwnaeth LJ wahodd MT i drafod camau gweithredu'r heddlu ynghylch amseroedd aros galwadau 101. Nododd MT mai'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r porth i'r sefydliad ac mae'n cydnabod y goblygiadau i'r cyhoedd. Roedd yn teimlo y byddai addasu adnoddau a gweithio gyda'r rhaglen recriwtio i gynyddu niferoedd yn gwella'r gwasanaethau 101. Gwnaeth MT wahodd CT i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad i'r bwrdd. 3.2 Rhoddodd CT y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad i'r bwrdd a nododd fod y galw ar y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â galwadau brys yn rhoi pwysau cynyddol ar staff i allu ateb galwadau 101 mewn amser rhesymol. Dywedodd fod y gyfradd ateb yn is nag erioed ym mis Awst 2021 ac mai dim ond 64% o alwadau i 101 a atebwyd ac mai'r amser ateb cyfartalog yw 12 munud. Dywedodd fod rhai achosion eithafol lle roedd pobl yn aros am dros awr. Dywedodd fod yr amseroedd aros cyfartalog yn gwella yn ystod mis Medi i oddeutu 10 munud. Roedd yr amseroedd hyn yn cael eu hadolygu'n gyson. 3.3 Cyfeiriodd CT at y galw ar y ddesg ddigidol a oedd yn ymateb i negeseuon e-bost a chysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac a oedd yn cael tua 15,000 o ymholiadau'r mis. Dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud i ddeall y galw ar y maes hwn a bod 97% o'r cyhoedd yn fodlon ar y gwasanaeth am eu bod yn teimlo ei fod yn fwy ymatebol na ffonio 101. Rhannodd CT y cynllun recriwtio i fynd i'r afael â phroblemau cyfredol amseroedd aros galwadau 101 a oedd yn cynnwys creu 20 o swyddi newydd yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i ail-lunio'r sefydliad presennol a phennu lle roedd y galw mwyaf a lle y byddai adnoddau o'r budd mwyaf. Dywedodd hefyd fod yr heddlu yn ailfodelu'r system gyfredol a ddefnyddir gan y staff a fyddai'n rhoi syniad o safle pobl yn y ciw a byddai hyn yn eu galluogi i reoli disgwyliad yn well. 3.4 Nododd CT mai'r galw mwyaf o blith yr holl fathau o alwadau oedd diweddariadau dioddefwyr sef tua 300 o alwadau bob dydd. Dywedodd fod hyn yn atgyfnerthu'r angen i wella gwasanaethau i ddioddefwyr ym mhob rhan o'r heddlu er mwyn helpu i ymdrin â'r galw. 3.5 Nododd JW fod y gwaith i wella gwasanaethau yn gadarnhaol a diolchodd i CT am werthusiad gonest a chynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol. Gofynnodd a wnaed unrhyw waith y tu allan i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws yr heddlu mewn perthynas â swyddogion yn rheoli disgwyliadau o ran diweddariadau dioddefwyr a phrosesau cysylltu. Dywedodd MT fod y Dirprwy Brif Gwnstabl wedi comisiynu bwrdd i ystyried y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a bod pwyslais cryf ar brofiadau'r cyhoedd. Dywedodd hefyd fod darn o waith yn cael ei wneud gan y bwrdd i graffu ar yr adolygiad o ddiweddariadau swyddogion. Nododd JM fod rhaglen hyfforddiant yn cael ei datblygu i oruchwylwyr rheng flaen a fyddai'n canolbwyntio ar ddiweddariadau dioddefwyr. 3.6 Holodd SG a oedd unrhyw waith yn cael ei wneud mewn perthynas â galwyr sy'n ffonio dro ar ôl tro a gofynnodd pa fathau eraill o alwadau a gafwyd. Dywedodd CT fod galwadau am iechyd meddwl yn un o'r prif fathau o alwadau a bod tîm arbenigol yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i helpu gyda'r rhain. Dywedodd hefyd fod gan bob maes o fewn yr heddlu grŵp datrys problemau er mwyn helpu i ddelio â'r galw

		gan asiantaethau partner mewn perthynas â'r mathau hyn o alwadau. Dywedodd LJ, os oeddent yn wynebu unrhyw rwystrau gydag asiantaethau partner, y byddai hyn yn rhywbeth y gallai tîm y Comisiynydd helpu gydag ef. 3.7 Gofynnodd JW a oedd yr hyn roedd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud gyda galwadau yn helpu'r heddlu gyda chudd-wybodaeth leol, er enghraifft. Nododd CT fod prosesau ar waith i'w galluogi i rannu'r wybodaeth hon â swyddogion cymdogaeth lleol. 3.8 Gofynnodd MT a allai'r Comisiynydd ysgrifennu nodyn yn diolch i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cydnabod gwaith ac ymrwymiadau parhaus i wella gwasanaethau i'r cyhoedd. ***CAM GWEITHREDU* LJ i ofyn i'r Comisiynydd gofnodi ei ddiolch.**
4.	**Trafodaeth am y camau nesaf yn dilyn yr Ymchwiliad at Wraidd y Mater ynghylch Rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu**	4.1 Dywedodd LJ fod y cofnodion o'r Cyfarfod at Wraidd y Mater blaenorol ynghylch Rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael eu rhannu yng nghyfarfod Bwrdd Strategol y Comisiynydd ac y caiff y pwnc ei ailystyried a'i adolygu yn unol â'r strategaeth plismona yn y gymdogaeth. 4.2 Nododd SM ei bod wedi cael adborth cadarnhaol o'i gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ond bod sawl person wedi codi'r mater ynghylch gallu cysylltu â'r Swyddogion yn uniongyrchol. 4.3 Soniodd JM unwaith eto am y syniad o ail-alinio trefniadau plismona yn y gymdogaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfod Bwrdd Strategol y Comisiynydd a dywedodd ei bod yn teimlo bod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn dymuno blaenoriaethu a gwella plismona yn y gymdogaeth. Cadarnhaodd hefyd fod gohebiaeth wedi cael ei hanfon yn dilyn y cyfarfod At Wraidd y Mater blaenorol er mwyn sicrhau bod holl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn rhoi eu rhifau ffôn uniongyrchol i gynghorwyr, yn dilyn yr awgrymiadau gan dîm y Comisiynydd. Dywedodd JM ei bod yn fodlon rhannu cynnydd y gwaith mewn perthynas â phlismona yn y gymdogaeth yn ôl yr angen.
5.	**Diweddariad am Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)**	5.1 Dywedodd CW y byddai HMICFRS mewn grym o fis Hydref tan ddiwedd mis Chwefror y flwyddyn nesaf a gofynnodd a allai cynrychiolwyr o'r Arolygiaeth fynychu un o gyfarfodydd y bwrdd Craffu ac Atebolrwydd ar y defnydd o bwerau'r heddlu, gan gynnwys stopio a chwilio neu'r defnydd o rym. Awgrymodd CW y gallent fynychu un o gyfarfodydd PALG (Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu). Dywedodd CW hefyd y byddai HMICFRS yn arolygu gwrthderfysgaeth ac ymateb yr heddlu i'r achosion o drais difrifol ymhlith pobl ifanc.
6.	**Unrhyw Fater Arall**	6.1 Dywedodd LJ fod tîm y Comisiynydd yn trefnu hyfforddiant craffu ar gyfer yr heddlu ac aelodau o dîm y Comisiynydd gydag asiantaeth allanol. Nododd mai diben hyn oedd sicrhau bod ein trefniadau craffu a chwestiynu yn addas a'n bod yn cyflawni lefel briodol o oruchwyliaeth. 6.2 Dywedodd LJ y byddai'r adborth gan y Panel Craffu Fideo a Wisgir ar y Corff yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod Uwchgyfeirio nesaf. 6.3 Diolchodd LJ i aelodau'r bwrdd am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod a chadarnhaodd y byddai unrhyw gamau gweithredu yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod ac y byddai themâu allweddol yn cael eu hailystyried yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.

Tabl Camau Gweithredu

Rhif	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
1.	LJ i ofyn i'r Comisiynydd rannu nodyn yn diolch am waith y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.	Lee Jones